

**Datgelu Camdriniaeth yn  
ystod Plentyndod gan  
Berson sydd bellach yn  
oedolyn: Canllawiau ar gyfer  
Ymarferwyr**

(A adwaenid yn flaenorol cyn hynny fe Honiadau o gam-drin a heb Fod yn  
Ddiweddar

# BYRDDAU DIOGELU CWM TAF

|                         |                          |   |
|-------------------------|--------------------------|---|
| Byrddau Diogelu Cwm Taf | Dyddiad: 12 Rhagfyr 2016 | Statws: Fersiwn Terfynol a Gymeradwywyd - FERSIWN 4 |
| Awdur: PPG              |                          | Dyddiad Adolygu: Rhagfyr 2016                       |

## 1.0 RHAGYMDRODD:

- 1.1 Mae gan bob un o'r holl sefydliadau partner statudol ddyletswydd i roi gwybod am bryderon diogelu sy'n ymwneud â phlant ac oedolion sydd mewn risg (Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, Rhan 7). Mae hyn yn cynnwys unrhyw gred neu amheuaeth fod plentyn yn dioddef, neu yn debyg o ddioddef, gan niwed o bwys.
- 1.2 Bydd y Bwrdd hefyd yn gweithredu o dan y canllawiau presennol mewn perthynas â phlant mewn perygl o niwed a'r pwerau a'r dyletswyddau o dan Ddeddf Plant 1989, yn enwedig y ddyletswydd o dan adran 47 o'r Ddeddf honno.
- 1.3 Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn gosod dyletswydd newydd ar bartneriaid newydd i roi gwybod i awdurdod lleol os amheuir fod oedolyn yn un sy'n wynebu risg. Yn ogystal â hyn, mae'r Ddeddf yn gosod dyletswydd ar awdurdod lleol i awdurdod lleol arall os oes oedolyn yr amheuir ei fod yn oedolyn sy'n wynebu risg yn byw mewn ardal arall neu yn symud yno.
- 1.4 Rhaid i bob un o'r holl ymarferwyr ofalu eu bod yn datgelu cam-drin yr oeddent wedi'u cael fel plant:
  - mae yno debygolrwydd uchel y bydd person fu'n cam-drin plentyn neu blant yn y gorffennol wedi parhau i wneud hynny, ac mae'n bosibl y bydd y person yn cam-drin plant o hyd.
  - efallai y bydd erlyniad troseddol yn bosibl os oes modd sicrhau digon o dystiolaeth.

## 2.0 CYD-DESTUN

- 2.1 Bydd llawer o honiadau o gam-drin plant heb ddod i sylw tan flynyddoedd ar ôl cyflawni'r tramgwyddau troseddol. Mae llawer o resymau dilys pam mae'n gyffredin i ddioddefwyr roi gwybod yn hwyr:
  - Ofn na fydd neb yn credu
  - Cysylltiad cyfredol â chyflawnwr y tramgwydd troseddol yn parhau
  - Bygythion a wnaed gan gyflawnwr y tramgwydd troseddol
  - Diffyg dealltwriaeth ar y pryd fod eu profiadau yn gyfystyr â chyfrif fel cam-drin plant.
  - Anallu i gyfleu'r cam-drin oherwydd eu camdriniaeth
  - Rhwystrau diwylliant neu iaith

# BYRDDAU DIOGELU CWM TAF

- Erioed wedi cael eu holi am am y posibilrwydd cam-drin plant.
- 2.2 Cyn gwneud unrhyw waith gydag oedolion, mae gan ymarferwyr ddyletswydd i roi gwybod i'r person am gyfyngiadau cyfrinachedd, ac y bydd raid, er enghraifft, roi gwybod am unrhyw ddatgeliadau o gam-drin plant. Mae hyn yn rhan o'r ddyletswydd i ddiogelu plant ac oedolion sydd mewn risg a pherygl.
- 2.3 Dylid nodi parthed plant sy'n datgelu cam-drin a chamdriniaeth fel plentyn, y dylid ystyried, trafod, ac ymdrin â hyn o dan 'Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan'. Yn yr un modd, dylid ystyried, trafod, ac ymdrin ag oedolion sy'n datgelu cam-drin a chamdriniaeth fel plentyn yn unol â 'Gweithdrefnau Amddiffyn Oedolion Cymru Gyfan'.

## 3.0 YMATEB CYCHWYNNOL GAN YMARFERWYR I DDATGELU

- 3.1 Pryd bynnag y bo oedolyn yn gwneud datgeliad o gam-drin yn ystod plentyndod, rhaid i'r ymarferydd y rhoddir yr wybodaeth iddo neu iddi gofnodi'r hyn a ddywedir gan y person, ac ymatebion hwennw neu honno hefyd, a rhaid i'r ymarferydd fod yn glir am y camau i'w cymryd gan yr ymarferydd. Diogelu unrhyw blant a allai o bosibl fod mewn risg yn gyfredol.
- 3.2 Rhaid dyddio, llofnodi pob cofnod. Caiff unrhyw wybodaeth wedi'i chofnodi yng nghofnodion yr achos ei defnyddio fel tystiolaeth gan yr Heddlu neu mewn llys.
- 3.3 Dylid gwneud pob ymdrech i gefnogi'r person sy'n gwneud y datgeliad, ond dyw hi ddim yn briodol i'r ymarferydd ymchwilio i'r honiadau cyn galw am Wasanaethau i Blant neu'r Heddlu. Caiff cwestiynau eu gofyn dim ond at ddibenion egluro, ond rhaid iddynt beidio â bod yn gwestiynau arweiniol.
- 3.4 Mae'n bwysig i ganfod yn glir a fo'r oedolyn yn ymwybodol ai peidio o leoliad diweddar, cyfredol, neu bresennol y cyflawnwr tramgwydd troseddol honiedig, ac a fo hwennw neu honno mewn unrhyw gysylltiad â phlant. Os yw'n bosibl fe fydd hyn yn cynnwys casglu gwybodaeth megis enw llawn, dyddiad geni, gweithle, cyfrifoldeb am blant, ac a fo'r cam-drin a wedi cael ei archwilio cyn hyn ac, os felly, gan bwy.
- 3.5 Os oes unrhyw berygl i unrhyw blentyn neu unrhyw oedolyn agored i niwed/bregus, rhaid i'r ymarferydd roi gwybod i Wasanaethau i Blant, hyd yn oed heb ganiatâd y defnyddiwr gwasanaeth.
- 3.6 Rhaid gofyn i'r oedolyn a fo ef neu hi yn dymuno gwneud cwyn wrth yr Heddlu yn uniongyrchol, a all neu a allai arwain o bosibl at ymchwiliad gan yr heddlu, ac at erlyniad troseddol. Bydd hyn yn cynnwys pob oedolyn, waeth beth fo'u anawsterau iechyd meddwl neu'u problemau anabledau dysgu. Rhaid parchu penderfyniad person sydd â galluedd /capasiti i beidio â rhoi gwybod am ei gam-drin/ei cham-drin ei hunan.

# BYRDDAU DIOGELU CWM TAF

3.7 Rhaid rhoi ystyriaeth i anghenion therapewtig yr oedolyn, a dylid ei sicrhau y gwneir pob ymdrech resymol i ymchwilio beth maen nhw wedi rhoi gwybod amdano. Yn ogystal â hyn i gyd, rhaid gwneud oedolion yn ymwybodol y gallai datgelu annigonol o wybodaeth olygu arwain at beidio â chymryd unrhyw gamau gweithredu yn erbyn cyflawnwr y tramgwydd troseddol, ond gan afael plant, neu oedolion agored i niwed/bregus mewn risg o newid.

## 4.0 CAMAU NESAF

4.1 Pan ddaw gwybodaeth i law sy'n arwain at achos rhesymol i amau fod plentyn neu blant mewn risg o gam-drin, esgeulustod ar hynny o bryd, mae gan ymarferwyr ddyletswydd i roi gwybod drwy gyfeirio'r achos i'r Gwasanaethau i Blant. Os am wneud hyn, ffoniwch yr Hwb Diogelu Aml Asiantaeth a mynd ar ôl y cais mewn ysgrifen, drwy gyflwyno Ffurflen C1 (Ffurflen Adroddiad) o fewn dau ddiwrnod gwaith.

4.2 Mae'r un peth yn wir i ac ar gyfer unrhyw oedolion sydd mewn risg a pherygl. Dylid gwneud hyn ffonio'r Hwb a Chanolfan Diogelu Aml Asiantaeth a dilyn trywydd hyn mewn ysgrifen drwy lenwi a chwblhau'r Ffurflen Oedolyn mewn Risg a Pherygl. (A1)

4.3 Pan fo'n aneglur ynghylch pa un a oes unrhyw blant mewn risg ar y pryd, neu fod pwy yw'r camdriniwr neu gamdrinwyr honedig yn aneglur, dylid trafod yr achos gyda'r person arweiniol dros Ddiogelu Plant o fewn sefydliad yr ymarferydd o fewn dau ddiwrnod gwaith.

...

... Mae'n bosibl efallai y bydd modd gweithiwr gyda'r defnyddiwr gwasanaeth dros gyfnod mwy estynedig o amser er mwyn rhoi grym a gallu iddynt ddatgelu neu gofio rhagor o fanylion a/neu fwrw a mynd ymlaen â datgeliad neu gwyn ffurfiol.

4.4 Dylai ymarferwyr fod yn ymwybodol y gall datgelu honiadau o gam-drin i'r Heddlu neu o'r Gwasanaethau Cymdeithasol effeithio'n uniongyrchol ar yr oedolyn sy'n gwneud y datgeliad ar eu hymgysylltiad â'r gwasanaethau y maent yn eu defnyddio. Pan fo unrhyw amheuaeth ynglŷn â sut i fynd ymlaen, dylid ymgynghori â'r person arweiniol dros Ddiogelu Plant. Rhaid cofnodi unrhyw drafodaeth yng nghofnod yr achos, ynghyd ag unrhyw gynlluniau gweithredu dilynol sy'n deillio o hynny.

4.5 Dylid trafod camau er mwyn amddiffyn yr oedolyn sydd wedi gwneud y datgeliad, fel rhan o waith cynllunio aml-asiantaethol yr ymchwiliad.

## 5.0 CYNORTHWYO A CHEFNOGI'R OEDOLYN I WNEUD CŴYN WRTH YR HEDDLU

5.1 Hwyrach y gallai ymarferwyr ddymuno bod yn gefn i'r oedolyn drwy fod yn bresennol mewn galwad ffôn gychwynnol gyda'r Heddlu.

# BYRDDAU DIOGELU CWM TAF

- 5.2 Mae modd i ymarferwyr gysylltu â'r Heddlu eu hunain er mwyn gofyn am gyngor am ba gamau gweithredu i'w cymryd drwy ffonio 101. Bydd yr Heddlu yn darparu arweiniad am ba wybodaeth sy'n ofynnol er mwyn i'r gŵyn gael ei hymchwilio.
- 5.3 Bydd cynnwys yr Heddlu o gwbl mewn ymchwiliad yn dibynnu ar nifer o ffactorau, fydd yn cynnwys dymuniadau'r oedolyn a diogelu'r cyhoedd.
- 5.4 Bydd yr Heddlu yn rhannu'r wybodaeth gyda'r Gwasanaethau Cymdeithasol i Blant er mwyn penderfynu'r camau nesaf ac hefyd er mwyn canfod yn glir a fo unrhyw wybodaeth ar gael mewn perthynas â'r cyflawnwr tramgwydd troseddol honiedig, a'rperylg tebygol i blant sy'n cael cysylltiad ag ef neu hi.

## 6.0 CYMORTH A CHEFNOGAETH I'R UNIGOLYN

- 6.1 Fe geir, fe ellir, ac fe ganiateir gwneud atgyferiad at gwmni New Pathways gyda chaniatâd yr unigolyn. Cwmni elusennol cofrestredig yw New Parthways, sy'n darparu amrediad o wasanaethau cwnsela ac eiriolaeth arbenigol ar gyfer menywod, dynion, plant, a phobl ifanc y mae trais neu gam-drin rhywiol wedi effeithio arnynt, boed ar hynny o bryd neu'n hanesyddol. Mae ganddynt lawer o flynyddoedd o brofiad, ac maent yn uchel eu parch ym mhob rhan o'r Deyrnas Unedig fel sefydliad sy'n arwain yn y maes hwn. Yn ogystal â hynny, mae New Pathways yn rhoi cymorth a chefnogaeth i ddioddefwyr nad ydynt yn dymuno rhoi gwybod i'r Heddlu.

- 6.2 Mae'r manylion cysylltu fel a ganlyn:

New Pathways, 11 Church St, Merthyr Tudful CF47 0BW  
Ffôn: 01685 379310

## 7.0 DATGELIADAU A AILADRODDIR

- 7.1 Ddylai ymarferwyr ddim tybio bod cam-drin a ddatgelwyd yn y gorffennol a/neu eu hymchwilio o reidrwydd yn peri diystyru'r posibilrwydd fod plentyn mewn risg ar hyn o bryd.
- 7.2 Dylid ystyried gyda'r oedolyn y posibilrwydd fod unrhyw blant mewn risg ar hyn o bryd, a rhaid cofnodi canlyniadau'r trafodaethau hyn.
- 7.3 Mewn amgylchiadau lle mae honiadau eisoes wedi cael eu datgelu, ac nad oes unrhyw dystiolaeth o unrhyw risg cyfredol i blant, dylid trafod yr angen am weithredu pellach gyda Gwasanaeth 101 yr Heddlu a Gwasanaethau i Blant drwy'r Hwb Diogelu Aml Asiantaeth os oes unrhyw amheuaeth ynghylch materion diogelu cyfredol.

# BYRDDAU DIOGELU CWM TAF

- 7.4 Pan fo'r cyflawnwr tramgwydd troseddol honiedig wedi marw, dylai gweithwyr proffesiynol ystyried a all unrhyw rai eraill fu'n cymryd rhan yn y cam-drin a honedig fod yn achosi a chyflwyno risg o ran diogelu ai peidio. Rhaid cofnodi canlyniadau'r trafodaethau hyn yng nghofnod yr oedolyn, a rhoi gwybod amdanynt.
- 7.5 Dylid cynnal gwaith darparu therapi cyn-dreial gan gydymffurfio yn unol ag Arweiniad Gwasanaeth Erlyn y Goron sydd i'w gael ar [www.cps.gov.uk](http://www.cps.gov.uk)